

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**

Children, Young People and Education Committee

Vaughan Gething AC  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
Llywodraeth Cymru

24 Ionawr 2019

Annwyl Vaughan,

**Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: darpariaeth ar gyfer cleifion mewnol**

Yn dilyn pryderon Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am ddiogelwch lleoliadau gofal iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru, daeth i'n sylw bod cyfyngiadau sylweddol ar hyn o bryd mewn perthynas â darparu gofal mewnol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i graffu ar y trefniadau sydd ar waith, a phenderfynu a oes angen gwaith craffu ychwanegol, rydym wedi ysgrifennu at Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sef y corff sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau CAMHS arbenigol Haen 4, i gael rhagor o wybodaeth. Rwy'n atodi copi o'r llythyr a anfonwyd a byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'ch dealltwriaeth o'r hyn y mae pob un o'r cwestiynau yn y llythyr yn holi amdano.

Yn ogystal â hyn, byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn egluro'r pwyntiau isod:


- Deallwn, yng ngoleuni pryderon AGIC yn ddiweddar, nad yw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gallu comisiynu lleoedd i gleifion mewnol mwyach yn Regis, Glynebwy, sy'n lleoliad preifat. Er bod AGIC wedi rhoi gwybod i gomisiynwyr Lloegr am eu pryderon, ac am y cyfyngiadau sy'n awr yn wynebu cleifion o Gymru, rydym yn deall bod comisiynwyr Lloegr yn parhau i anfon cleifion o'u hardaloedd nhw i'r lleoliad hwn. A allwch chi gadarnhau a ydych wedi trafod y gofal sydd ar gael i gleifion yn Regis, Glynebwy ac, os felly, beth oedd natur y trafodaethau hyn.
- Deallwn fod nifer o bryderon ynglŷn â diogelwch mewn dwy o unedau'r GIG ar gyfer cleifion mewnol CAMHS, sef yr unedau yn Abergele ac yn Nhŷ Llidiard, Pen-y-bont ar Ogwr. A allwch chi amlinellu'ch dealltwriaeth o'r pryderon hyn, y cyngor neu'r



cyfarwyddyd rydych wedi'u roi i'r Byrddau Iechyd o ystyried pryderon AGIC, a'r camau rydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod y sefyllfa yn y ddau leoliad yn gwella.

O gofio difrifoldeb posibl y pryderon hyn, sefyllfa fregus y cleifion hynny sydd fwyaf tebygol o orfod cael gofal CAMHS fel cleifion mewnol, a'r cynnydd tebygol yn nifer y plant a'r bobl ifanc a fydd, oherwydd hyn, yn gorfod cael eu lleoli ymhellach o'u cartrefi i gael gofal, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn ymateb i'r llythyr hwn cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**

